ADRODDIAD SENEDD YR YSGOL - GWANWYN 2024

SCHOOL PARLIAMENT REPORT - SPRING 2024

LLAIS LLANTRISANT *LLANTRISANT VOICE*

Mae aelodau'r pwyllgor yn cwrdd yn fisol er mwyn dewis Hawl y Mis. Hawl y Mis ar gyfer mis Mawrth yw Hawl #16 - "Mae gen i hawl i gadw rhai pethau yn breifat". Tasg arall i aelodau'r pwyllgor yw i agor y blychau sylwadau sydd i'w gweld o gwmpas yr ysgol. Rydym yn casglu unrhyw sylwadau sydd wedi'u postio gan ein ffrindiau a'u trafod i weld sut allai'r pwyllgor helpu. Yn ystod ein cyfarfod fis Ionawr, trafodwyd yr offer newydd ar gyfer iard Cam Cynnydd 1. Erbyn hyn, mae'r ysgol wedi prynu ffrâm antur ar gyfer yr iard.

The members of the committee meet monthly in order to choose the Right of the Month. The Right of the Month for March is Right #16 - "I have the right to keep some things private". Another task for the committee members is to open the comment boxes that can be seen around the school. We collect any comments our friends have posted in these boxes and discuss them to see how the committee could help. During a meeting in January, we discussed new play equipment for the Progression Step 1 playground. By now, the school has purchased a new adventure frame for the yard.



DINASYDDION DOETH *WISE CITIZENS*

Fel ymdrech barhaus i weithio tuag at 3ydd gwobr baner Platinwm Eco-ysgolion a gwobr efydd Eco Rhondda Cynon Taf. Mae'r Dinasyddion Doeth yn parhau i gasglu'r ailgylchu o'r dosbarthiadau yn wythnosol. Aelodau pwyllgor blwyddyn 5 a 6 oedd yn gyfrifol am gasglu'r ailgylchu yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn academaidd, erbyn hyn mae aelodau hynaf y pwyllgor yn hyfforddi'r aelodau iau ar y broses. Yn ystod adolygiad o ailgylchu yn yr ysgol a gyda'r ddeddf newydd ynghylch ailgylchu yn y gweithle yn dod i rym, bydd aelodau pwyllgor Blwyddyn 6 yn sicrhau bod yr holl ailgylchu yn cael ei roi yn y biniau cywir. Bydd nodyn ynghylch defnyddio'r biniau cywir yn cael ei adael yn y dosbarthiadau ble mae deunyddiau yn cael eu rhoi yn y biniau anghywir. Bydd cystadleuaeth i greu 'hysbysiad ailgylchu' yn cael ei chynnal cyn y ddeddf newydd ym mis Ebrill.

As a continued effort in working towards the 3rd Eco schools Platinum flag award and the Rhondda Cynon Taff bronze Eco award, the Wise Citizens continue to collect the recycling from the classes on a weekly basis. The year 5 & 6 committee members initially took responsibility of collecting the recycling, however the committee members are now training the younger members on the process. During a review of the recycling and in light of the new legislations regarding recycling in the workplace, the year 6 committee members will be ensuring that all the recycling is placed in the correct bins. Any class found not to be following the guidelines, will be issued with a note regarding correct recycling. A competition to create a 'recycling notice' will be held prior to the new legislations in April.

Y CRIW CYMWYNASGAR *THE HELPING HANDS*

Mae aelodau Blwyddyn 5 a 6 y Criw Cymwynasgar wedi bod wrthi yn chwarae gemau gyda phlant Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 ar yr iard bob bore. Plant y dosbarthiadau Derbyn a Blwyddyn 1 sydd wedi dangos y diddordeb mwyaf. Mae'r plant yn awyddus i barhau gyda'r gweithgaredd yma i ddysgu pawb sut i gymryd tro ac i annog plant sydd yn unig i ymuno mewn hefyd ac i ddysgu'r plant i siarad Cymraeg wrth chwarae. Mae Mrs Burrows am barhau i gyflwyno gemau newydd yn wythnosol. Rydyn ni hefyd yn awyddus i wobrwyo plant sydd yn ymdrechu i siarad Cymraeg ar yr iard gyda sticeri. Penderfynon ni hefyd y gallai'r plant sydd wedi ennill sticer symud i fyny'r Siart Iaith yn y dosbarthiadau.

Year 5 and 6 members of the Helping Hands committee have been playing games with Reception, Year 1 and 2 children on the yard during morning play. Reception and Year 1 children have shown the most interest. We are eager to continue with this activity to teach younger children how to take turns and to encourage individuals who may appear to be lonely to participate. We are also encouraging the children to play through Welsh. Mrs Burrows will continue to introduce new games weekly. We have decided to reward children with a sticker for speaking Welsh through play and the children can also be rewarded in class by moving up the Language Chart in class.

YSGOLION IACH *HEALTHY SCHOOLS*

Y tymor hwn, mae plant y Pwyllgor Ysgolion Iach wedi ysgrifennu llythyr i rieni am bwysigrwydd bwyta'n iach yn awgrymu byrbrydau iachus yn ystod amser chwarae. Ers ein cyfarfod diweddaraf mae plant Blwyddyn 5 a 6 wedi creu posteri yn hysbysu plant Ysgol Llantrisant am fwydydd iachus i'w cynnwys yn eu bocsys brechdanau. Rydym wrthi yn paratoi'r posteri er mwyn eu gosod o amgylch yr ysgol. Yn ogystal â hyn roedd y pwyllgor yn awyddus i gefnogi'r ymgyrch 'Bwytewch y Llysiau I'w Llethu' i annog y plant i fwyta mwy o lysiau. Anfonwyd siart gwobrwyo a sticeri adref gyda phob plentyn er mwyn helpu rhieni i hybu bwyta'n iach gartref. Yn ystod yr wythnosau nesaf byddwn yn gweithio gyda'r Criw Cymwynasgar i drefnu gweithgareddau i'w cynnal yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ym mis Mai.

This term, the children of the Healthy Schools Committee have written a letter to parents about the importance of healthy eating suggesting healthy snacks during playtime. Since our last meeting Year 5 and 6 children have created posters informing the children of Ysgol Llantrisant about healthy foods to include in their lunch boxes. We are now busy preparing the posters in order to place them around the school. In addition to this the committee was keen to support the 'The Eat Them To Defeat Them Campaign' to encourage the children to eat more vegetables. A reward chart and stickers were sent home with each child to help parents promote healthy eating in the house. In the coming weeks we will be working with the Helping Hands Committee to organize a variety of activities for Mental Health Awareness Week in May.

Y CRIW DIGIDOL *THE DIGITAL CREW*

Ers yr Hydref mae'r Criw Digidol wedi bod yn cwrdd i drafod Technoleg Gwybodaeth ar draws yr ysgol. Mae'r criw yn hapus iawn gyda'r sylwadau positif sydd gan y disgyblion am y cyfleoedd maent yn ei derbyn. Mae'r criw dal yn pryderu am liniaduron a chromebooks sydd ddim yn cael eu rhoi nôl yn y trolïau yn gywir. Bydd y criw yn gosod y trolïau yn gywir ac yn eu dangos i'r disgyblion mewn gwasanaeth. Mae'r criw hefyd wedi gwneud trefniadau ar gyfer y Clwb Digidol. Bydd y clwb amser cinio unwaith yr wythnos ac yn dechrau ar ôl gwyliau'r pasg. Bydd y plant yn casglu enwau i weld pwy sydd gyda diddordeb.

Since the Autumn the digital crew have been meeting to discuss the use of Information Technology across the school. The crew are very happy with the positive comments pupils are making about the opportunities they are receiving. But the crew are still concerned about laptops and Chromebooks not being correctly placed back in the charging trolleys. The crew will place the trolleys correctly to show the pupils in an assembly. The crew have also planned the activities for the Digital Club. The lunchtime club will take place once a week and will start after the Easter holidays. A questionnaire will be sent out to pupils to see who is interested.

Y CRIW CYMRAEG *THE WELSH CREW*

Rydyn ni'n cwrdd yn gyson i drafod sut gallwn ni helpu'r plant i siarad Cymraeg ac hefyd sut i ddatblygu'r iaith yn y gymuned. Rydyn ni'n cynnal cystadleuaeth bob mis i rieni sydd yn dysgu Cymraeg ar yr ap Duolingo. Mae'r rhieni yn ebsotio sgrinlun o'u sgôr ar ddechrau a diwedd y mis. Mae'r rhai sydd yn dod yn gyntaf, ail a thrydydd yn derbyn gwobr o gynnyrch Cymreig.

Rydyn ni hefyd yn helpu dewis Trac yr Wythnos gan geisio sicrhau bod cymysgedd o ganeuon newydd yn ogystal â rhai rhai o'r hen ffefrynnau. Rydyn ni wedi dechrau recordio fideos o ymadroddion Cymraeg i helpu'r rhieni a'r gymuned ddysgu'r iaith ac yn nhymor yr haf byddwn yn datblygu gemau i blant Cam Cynnydd 1 a 2 eu chwarae gyda'i gilydd

amser chwarae. Bob wythnos rydyn ni'n mynd i'r holl ddosbarthiadau o'r Derbyn hyd at Flwyddyn 6 i gasglu eu sgôr Siart Iaith. Mae'r plant yn cael eu gwobrwyo am siarad Cymraeg a defnyddio geiriau ac ymadroddion uchelgeisiol drwy symud i fyny'r sgwâr cant sydd ym mhob dosbarth. Rydyn ni'n cofnodi'r sgôr ar arddangosfa y Siarter Iaith yn y Neuadd ac yn cyhoeddi pa ddosbarth gafodd y sgôr uchaf yn ysod y gwasanaeth ar fore dydd Gwener. Hoffem ddatblygu hyn ymhellach drwy wobrwyo Cymro neu Gymraes yr wythnos, sef unigolyn o bob dosbarth sydd wedi gwneud ymdrech arbennig i hybu iaith a diwylliant Cymru.

We meet regularly to discuss how we can help the children to speak Welsh and also how to develop the language in the community. We hold a competition every month for parents who are learning Welsh on the Duolingo app. The parents email a screenshot of their score at the beginning and end of the month. Those who come first, second and third receive a prize of Welsh. We also help choose the Welsh Track of the Week, trying to ensure there is a mix of new songs as well as some old favourites. We have started recording videos of Welsh expressions to help the parents and the community learn the language and in the summer term we will develop games for the children of Progression Steps 1 and 2 to play together at playtime. Every week we go to all the classes from Reception up to Year 6 to collect their Language Chart score. The children are rewarded for speaking Welsh and using ambitious words and phrases by moving up the hundred square in each class. We record the score on the Siarter Iaith display in the Hall and announce which class got the highest score during the assembly on Friday morning. We would like to develop this further by awarding a "Cymro" or "Cymraes" of the week to an individual from every class who has made a special effort to promote the language and culture of Wales.